
# Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

| | |
|---|---|
| **Teitl / Darn o waith:** | **Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris Alcohol) (Cymru) Drafft**<br><br>Isafbris uned ar gyfer alcohol |
| **Enw'r Swyddog:** | Adrian Green |
| **Adran:** | Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Dyddiad:** | Adolygwyd ddiwethaf ym mis Mehefin 2015 |
| **Llofnod:** | AG |

# Chwe Cham i Sylw Dyledus

Mae Adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) (2011) yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) wrth wneud eu penderfyniadau. Mae'r term 'sylw dyledus' yn gofyn i faterion gael eu hystyried yn gytbwys. Golyga hyn bod yn rhaid i'r Gweinidogion ystyried sut y mae’r hyn y maent yn ei wneud, gan gynnwys datblygu deddfwriaeth, yn ymwneud â'r hawliau a'r goblygiadau a nodir yn y CCUHP.



## Cam 1. Beth yw'r darn o waith a'i amcan(ion)?

Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau gwneud cynigion er mwyn cyflwyno system Isafbris Uned ar gyfer alcohol yng Nghymru o dan **Fil Drafft Iechyd y Cyhoedd (Isafbris Alcohol) (Cymru)** sydd wedi ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Amcan y Bil drafft a Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru), a gyflwynwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 8 Mehefin 2015, yw datblygu ar y llwyddiannau yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru mewn ymateb i faterion pwysig sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd yng Nghymru.

Bydd cynigion yr isafbris uned yn sefydlu pris isaf ar gyfer uned o alcohol, sy'n golygu na cheir gwerthu alcohol am bris sy'n is na'r pris hwnnw. Ar hyn o bryd, cynigir mai 50c fydd yr isafbris uned. Y nod cyffredinol yw lleihau'r defnydd niweidiol o alcohol yng Nghymru; gan leihau'r lefelau cynyddol o dderbyniadau i ysbytai sy'n gysylltiedig ag alcohol, a salwch a marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol. Ni fydd cyflwyno isafbris uned yn cynyddu pris pob diod alcoholaidd, dim ond y rhai sy'n cael eu gwerthu am bris llai na lefel yr isafbris uned a bennir. Cynigir y bydd gweithredu a gorfodi'r system isafbris uned yng Nghymru yn rhan o gyfrifoldebau rheoleiddiol awdurdodau lleol.

Mae tystiolaeth gymhellol, wedi ei chasglu dros ddegawdau lawer o ymchwil, bod alcohol yn achosi niwed a bod y tebygolrwydd o niwed yn gymesur â'r swm o alcohol a gaiff ei yfed. Mae camddefnyddio alcohol yn broblem glir a pharhaus yng Nghymru hefyd, sy'n arwain at amrywiaeth o niwed i iechyd a'r gymdeithas ac mae tystiolaeth dda o hynny. Yn 2013, bu farw 467 o bobl yng Nghymru o ganlyniad i alcohol, y rhan fwyaf ohonynt yn ddynion. Ar y cyfan, amcangyfrifir bod camddefnyddio alcohol yn costio oddeutu £109 miliwn y flwyddyn i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru, a hynny ar gyfer derbyniadau i ysbytai sy'n gysylltiedig ag alcohol yn unig.

Mae isafbris uned yn rhan bwysig o strategaeth gyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer lleihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, oherwydd ei allu i dargedu arferion y bobl hynny sydd fwyaf tebygol o ddioddef o salwch a marwolaeth (sef yfwyr peryglus ac yfwyr niweidiol yn benodol, gan gynnwys pobl ifanc), ac ar yr un pryd, lleihau'r effaith ar yfwyr cymedrol, yn enwedig y rhai sydd ar incwm isel. Fe'i cynlluniwyd i dargedu cynhyrchion alcohol sy'n cael eu gwerthu am brisiau isel iawn o gymharu â chryfder yr alcohol.

## Cam 2. Dadansoddi'r effaith

Nod isafbris uned yw effeithio'n gadarnhaol ar gymdeithas yn gyffredinol, drwy helpu i leihau'r defnydd niweidiol o alcohol a mynd i'r afael â'r niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol. Er y bydd y cynigion yn effeithio'n eang ar draws y gymdeithas, maent yn berthnasol i faterion penodol sy'n ymwneud â'r alcohol a yfir gan blant a phobl ifanc. Byddant hefyd yn helpu i fynd i'r afael â nifer o faterion cysylltiedig, er enghraifft y cynnydd mewn yfed alcohol yn y cartref cyn mynd allan i far, tafarn neu glwb nos, a phobl ifanc sy'n tueddu i brynu alcohol o archfarchnadoedd a siopau diodydd trwyddedig.

Mae isafbris uned yn ymyrraeth wedi'i thargedu sy'n ceisio cael yr effaith fwyaf ar yfwyr peryglus a niweidiol. Comisiynwyd Grŵp Ymchwil Alcohol Prifysgol Sheffield gan Lywodraeth Cymru i astudio effaith bosibl amrywiaeth o bolisïau prisio alcohol ar Gymru. Ar 8 Rhagfyr 2014, cyhoeddodd y grŵp adroddiad "*Gwerthusiad yn seiliedig ar fodel o isafswm pris uned o alcohol yng Nghymru*[1]".

Daeth yr astudiaeth hon i'r casgliad bod nifer o fuddion allweddol i gyflwyno polisi isafbris uned o alcohol yng Nghymru, gan gynnwys:

- Byddai polisïau isafbris uned yn effeithiol wrth leihau faint o alcohol a gaiff ei yfed, y niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol (gan gynnwys marwolaethau, derbyniadau i'r ysbyty, troseddau ac absenoldebau o'r gweithle sy'n gysylltiedig ag alcohol) a'r costau sydd ynghlwm wrth y niwed hwnnw; dim ond effaith fach y byddai polisïau isafbris uned yn ei chael ar 'yfwyr cymedrol'. Byddai mwy o effaith ar 'yfwyr risg cynyddol', a byddai'r effeithiau mwyaf sylweddol ar 'yfwyr risg uchel' (yn enwedig gan fod yr yfwyr hyn yn fwy tebygol o yfed y mathau o alcohol y mae isafbris uned yn effeithio arnynt);

- Amcangyfrifir y byddai economi Cymru ar ei hennill o £882 miliwn dros 20 mlynedd yn sgil cyflwyno isafbris uned o 50c ar gyfer alcohol, a hynny oherwydd gostyngiadau mewn salwch, troseddau ac absenoldebau o'r gweithle. Mae hon yn effaith gyfanredol, a ysgogir gan y ffaith y byddai isafbris uned yn effeithio mwy ar y rhai sy'n yfed lefelau niweidiol a pheryglus o alcohol, ac y byddai eu defnydd o alcohol yn gostwng fwyaf yn nhermau absoliwt.

Mae model Sheffield yn amcangyfrif y bydd camddefnyddio alcohol yn costio £15.3 biliwn i'r gymdeithas dros 20 mlynedd. Mae trafodaeth fwy manwl ar effaith yfed gormod o alcohol ar iechyd a lles yng Nghymru, gan gynnwys canfyddiadau astudiaeth Prifysgol Sheffield a thystiolaeth arall i'w gweld yn Rhan 2 - yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

[1] http://gov.wales/statistics-and-research/research-likely-impact-public-attitudes-towards-minimum-unit-price-alcohol/?skip=1&lang=cy

Mae Panel Cynghori Llywodraeth Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau wedi ystyried y llenyddiaeth academaidd a'r dystiolaeth ar isafbris uned.

Dywedodd ei adroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2014,[2] fod y sail dystiolaeth yn helaeth ac yn ddibynadwy. Dywedodd: *"The effects of Minimum Unit Price would be different for different subgroups of the population: therefore Minimum Unit Price enables those drinking alcohol more harmfully or hazardously to be targeted, with smaller effects on moderate drinkers, particularly those with low incomes. Taking into account all the circumstances and evidence before the panel minimum unit pricing is an effective mechanism through which alcohol-related harm can be addressed*".

Gwnaed rhywfaint o gynnydd eisoes o ran gostwng yr alcohol a yfir gan bobl ifanc. Er enghraifft, mae adroddiad cenedlaethol 'Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol,[3] yn dangos bod gostyngiad o 59% i 36% yn nifer y bechgyn 15 ac 16 oed a gostyngiad o 46% i 30% yn nifer y merched 15 a c16 oed a oedd yn dweud eu bod yn yfed alcohol o leiaf unwaith yr wythnos rhwng 1998 a 2009. Ond dengys hefyd bod yfed ymysg pobl ifanc yn dal yn destun pryder difrifol, gyda 17% o fechgyn a 14% o ferched 11 i 16 oed yng Nghymru yn yfed alcohol o leiaf unwaith yr wythnos yn 2009 - 10, sef y data diweddaraf sydd ar gael. Mae'r ffigyrau hyn yn dal yn uwch na'r Alban, Lloegr ac Iwerddon. Mae cynnydd yn digwydd, ond mae llawer iawn o waith i'w wneud o hyd i leihau'r camddefnydd o alcohol yng Nghymru ac ystyrir bod yr isafbris uned yn rhan allweddol o'r strategaeth gyffredinol er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn.

Mae camddefnyddio alcohol yn ystod llencyndod, cyfnod sy'n sensitif o ran datblygiad pobl ifanc, yn arbennig o beryglus i gyneddfau'r ymennydd o ran swyddogaethau gweithredol a chof tymor hir.[4] Mae dechrau yfed yn ifanc hefyd yn gysylltiedig â thueddiad uwch ymhlith oedolion i ddibynnu ar alcohol ac amrywiaeth ehangach o ganlyniadau andwyol. Mae pobl ifanc yn eu harddegau sy'n camddefnyddio alcohol hefyd yn fwy tebygol o ddioddef o sgil effeithiau gan gynnwys newid mewn archwaeth, colli pwysau, ecsema, cur pen ac anhunedd. Mae yfed alcohol yn ystod llencyndod hefyd yn gysylltiedig â rhyw heb ddiogelwch, beichiogrwydd yn yr arddegau a thebygolrwydd uwch o ddal heintiau a drosglwyddir yn rhywiol.

[2] Panel Cynghori ar Gamddefnyddio Sylweddau, '*Minimum Unit Pricing: A Review of its Potential in a Welsh Context*' 2014; t10

[3] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2010) UK Health Statistics. Rhifyn Rhif 4 [ar-lein]. Ar gael ar http://www.ons.gov.uk/ons/rel/ukhs/united-kingdom-health-statistics/2010/index.html

[4] Newbury-Birch et al, 2008 – Impact of Alcohol Consumption on Young People: A Review of Reviews. Newcastle University for the Department of Children, Schools and Families.

**Effeithiau cadarnhaol y ddeddfwriaeth**

Ar y cyfan, rhagwelir y bydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn effeithio mewn ffordd lesol ar iechyd plant ac yn lleihau'r risgiau i blant sy'n agored i niwed. Gall plant gael eu heffeithio'n andwyol gan yr amrywiol afiechydon a chyflyrau difrifol sy'n gysylltiedig â goryfed ymysg rhieni ac oedolion eraill, a chan ymddygiad yfed oedolion yn gyffredinol. Mae risgiau hysbys i iechyd babanod menywod sy'n yfed alcohol pan fyddant yn feichiog. O wybod y cysylltiad rhwng fforddiadwyedd a defnydd o alcohol, ystyrir bod gan system isafbris uned botensial sylweddol i helpu i ostwng y defnydd o alcohol ymhlith pobl ifanc. Mae tystiolaeth glir hefyd bod isafbris uned yn ffactor allweddol wrth helpu i ostwng y baich ar y gwasanaeth iechyd a gwasanaethau cyhoeddus eraill, gan leihau troseddu a dod â buddion ehangach i gymunedau yng Nghymru gan ei fod yn targedu'r rhai sy'n yfed yn niweidiol a pheryglus.

**Effeithiau negyddol**

Ni ragwelir y bydd gweithredu'r cynnig hwn yn cael unrhyw effeithiau negyddol uniongyrchol ar blant a phobl ifanc, gan y cydnabyddir yn eang na ddylai plant yfed alcohol. Dim ond effeithiau uniongyrchol cadarnhaol a allai ddeillio o system brisio sy'n gwrthbwyso tuedd i yfed ymhlith plant a phobl ifanc.

Bydd angen monitro rhywfaint o'r effeithiau negyddol anuniongyrchol posibl a allai godi o ganlyniad i'r cynigion hyn. Yn benodol, er mai bwriad yw i isafbris uned gael llai o effaith ar yfwyr cymedrol a'r bobl hynny ar incwm is, bydd angen monitro fforddiadwyedd canfyddiadol i oedolion ifanc a monitro'r effaith ar gyllideb aelwydydd sy'n byw mewn tlodi, er mwyn sicrhau nad yw'r isafbris uned yn gwthio rhai plant yn ddyfnach i amddifadedd mewn ffordd anuniongyrchol. Fodd bynnag, ar y cyfan, teimlwn fod parhau gyda'r isafbris uned er budd pennaf plant.

**Llwyddiant / mesur effaith**

Bydd swyddogaeth bwysig i isafbris uned o ran lleihau'r defnydd niweidiol o alcohol a all amlygu ei hun mewn nifer o ffyrdd. Bydd effaith isafbris uned yn cael ei fonitro gan ddefnyddio amrywiaeth o ddangosyddion, gan gynnwys:-

- Nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru;
- Cyfraddau'r derbyniadau i ysbytai sy'n gysylltiedig ag alcohol (h.y. derbyniadau sy'n ymwneud yn llwyr ag alcohol, megis clefyd yr iau sy'n gysylltiedig ag alcohol neu orddos o alcohol);
- Cyfraddau marwolaeth sy'n gysylltiedig ag alcohol (marwolaethau sydd fwyaf cysylltiedig ag alcohol, megis clefyd yr iau sy'n gysylltiedig ag alcohol);
- Cyfraddau marwolaeth y gellir eu priodoli i alcohol (sy'n cynnwys marwolaethau oherwydd cyflyrau y gellir eu priodoli'n rhannol i alcohol);
- Tueddiadau yn y cyfraddau uchod ar draws gwahanol ardaloedd, gan gynnwys ardaloedd difreintiedig;
- Data ar alcohol a yfir a gaiff ei gasglu drwy Arolwg Iechyd Cymru;
- Nifer y plant a phobl ifanc sy'n cael eu rhoi mewn gofal am fod eu rhieni'n

camddefnyddio alcohol neu'n camddefnyddio sylweddau yn gyffredinol.

**Ymgynghoriad**

Roedd y cynnig hwn yn un o nifer o gynigion y cynhaliwyd ymgynghoriad arnynt mewn Papur Gwyn Iechyd y Cyhoedd rhwng 2 Ebrill a 24 Mehefin 2014. Er mwyn ymgysylltu i'r eithaf â phlant a phobl ifanc, cynhyrchwyd fersiwn o'r Papur Gwyn a oedd yn addas i bobl ifanc ac fe'i cyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru. Dosbarthwyd y fersiwn hon drwy'r Ddraig Ffynci a Chynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru hefyd. Trafodwyd y Papur Gwyn hefyd yng nghynhadledd llysgenhadon y Ddraig Ffynci. Roedd y farn yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar gynigion yr isafbris uned gan blant a phobl ifanc yn gymysg, gyda rhai pobl ifanc yn teimlo y byddai'r cynigion yn helpu i annog pobl i beidio â goryfed, ac eraill yn teimlo y gallai olygu bod alcohol yn llai fforddiadwy i oedolion ifanc a phobl sy'n yfed yn gyfrifol.

Yn ogystal, derbyniwyd nifer o ymatebion gan sefydliadau sy'n cynrychioli plant, gan gynnwys y Comisiynydd Plant Cymru a Phlant yng Nghymru. Roedd y cyn-gomisiynydd plant yn cefnogi'r cynnig, gan nodi y dylai'r isafbris uned, ynghyd â'r wyliadwriaeth gynyddol o ran atal gwerthu alcohol i bobl ifanc o dan 18 oed, ostwng yr achosion o yfed o dan oed ymhellach, nid yn unig yn nhermau atal pobl ifanc rhag yfed ond hefyd lleihau faint o alcohol a gaiff ei yfed. Fodd bynnag, roedd yn annog Llywodraeth Cymru i fonitro gweithrediad y cynigion yn ofalus er mwyn osgoi senario lle mae rhai pobl ifanc yn dechrau yfed alcohol cryfach yn sgil y cynnydd mewn prisiau.

Roedd ymateb Plant yng Nghymru i'r ymgynghoriad hefyd yn gyffredinol gefnogol o'r isafbris uned, gan ei ystyried yn un o amrywiaeth o fesurau ar gyfer mynd i'r afael ag yfed o dan oed, meddwdod a thrais domestig sy'n effeithio ar les emosiynol plant a phobl ifanc. Fel rhan o'n rhaglen ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid, byddwn yn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc drwy ein rhwydweithiau partner, gan gynnwys Plant yng Nghymru.

## Cam 3. Sut mae eich darn o waith yn cefnogi ac yn hyrwyddo hawliau plant?

Er na ddylai plant fod yn yfed alcohol, derbynnir yn eang fod llawer yn gwneud hynny beth bynnag. Er bod y niferoedd yn gostwng, mae defnydd o alcohol gan bobl ifanc 15 oed yng Nghymru yn uwch na gwledydd eraill y DU i gyd.[5] Nod system isafbris uned yw lleihau'r defnydd o alcohol ac felly lleihau'r niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol. Mae hyn yn cynnwys lleihau'r defnydd o alcohol gan blant a phobl ifanc.

Mae'r cynnig hwn yn cefnogi erthyglau canlynol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn fwyaf uniongyrchol:-

[5] Currie, et al. 2012

Erthygl 3 – Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio tuag at yr hyn sydd orau i bob plentyn;

Erthygl 6 – Mae gan bob plentyn yr hawl i fyw. Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach.

Erthygl 12 – Mae gan blant hawl i ddweud eu barn ar yr hyn sy'n digwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac i gael ystyriaeth i'w barn.

Ystyrir bod creu system isafbris uned sy'n ymdrechu i dargedu niweidiau sy’n gysylltiedig ag alcohol yn gyson â gofynion CCUHP. Mae cynnig o'r fath yn rhoi ystyriaeth i fudd pennaf plant uwchlaw popeth.

## Cam 4. Cynghori'r Gweinidog a phenderfyniad Gweinidogol

Cynghorwyd y Dirprwy Weinidog Iechyd fod y gwaith hwn yn bodloni erthyglau CCUHP, sef, yn bennaf, yr erthyglau a amlinellwyd uchod a bydd gofyn iddo gymeradwyo'r ddogfen er mwyn ei chyhoeddi.

Cynigir y bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael ei gyhoeddi gyda'r asesiadau o'r effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg ochr yn ochr â'r Bil drafft a Memorandwm Esboniadol y Bil. Bydd yr asesiadau effaith yn cael eu haddasu fel y bo'n briodol yn ystod cyfnod datblygu'r Bil a'i basio drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Ymgynghorir â Chomisiynydd Plant Cymru hefyd drwy gydol y broses.

## Cam 5. Cofnodi a chyfathrebu'r canlyniad

Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael ei fonitro yn ystod datblygiad Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris Alcohol) (Cymru) ac yn cael ei ddiweddaru a'i gyhoeddi gyda'r Memorandwm Esboniadol pan fydd y Bil yn cael ei gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd y broses asesu yn cael ei chynnal fel a ganlyn:

- Bydd camau 1-3 yn canfod sut y cydymffurfiwyd â dyletswydd y CCUHP
- Bydd camau 1-3 yn nodi'r dadansoddiad perthnasol a gynhaliwyd fel rhan o'r asesiad
- Bydd cam 4 cael ei ddiweddaru'n gyfnodol er mwyn nodi sut y cyfathrebwyd yr wybodaeth hon
- Bydd fersiwn derfynol yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael ei chyhoeddi yn unol â Chynllun Hawliau Plant 2014 ar ôl i'r Bil gael ei gymeradwyo’n derfynol gan y Cynulliad.

## Cam 6. Edrych eto ar y darn o waith yn ôl yr angen

Byddwn yn edrych eto ar y darn hwn o waith a'i ddiweddaru ar ei hynt drwy'r Cynulliad, ac yn gyfnodol ar ôl cynnig gael ei roi ar waith. Wrth edrych eto ar yr asesiad, rhoddir ystyriaeth i'r ffactorau canlynol:

- A yw'r cynnig yn cael yr un effaith fwriadedig ag a nodwyd yng Ngham 2?
- Ym mha ffordd y mae'r broses ymgysylltu â rhanddeiliad wedi cadarnhau hyn?
- A oes unrhyw feysydd i'w gwella o ran hawliau'r plentyn?
- A oes unrhyw gyfleoedd ychwanegol i'r cynnig hyrwyddo hawliau plant?

**<u>Cyllidebau</u>**

| **A oes unrhyw effeithiau ar gyllidebau o ganlyniad i gwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant?**<br>Mae'n bwysig bod hyn yn cael ei asesu a thystiolaeth yn cael ei darparu fel rhan o broses yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant pan wneir unrhyw newidiadau i gynlluniau gwario, gan gynnwys pan fo dyraniadau ychwanegol yn digwydd. | **Nac oes** |
|---|---|

**Nodwch unrhyw fanylion:**

Darperir manylion y goblygiadau ariannol yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil drafft - Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol.

O ganlyniad i gwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, ni chanfuwyd bod angen rhagor o adnoddau gan Lywodraeth Cymru. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â'r isafbris uned wedi eu nodi yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol - yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ac maent yn cynnwys:

Costau i lywodraeth leol sy'n gysylltiedig â gweithredu isafbris uned, er bod y cynigion gweithredu wedi eu cynllunio i gyd-fynd â chynlluniau cyfredol llywodraeth leol i gadw unrhyw effaith o ran cost cyn ised â phosibl;
Costau i fanwerthwyr wrth newid prisiau ar y silffoedd ac ar gyfrifiaduron yn ogystal â chyfrifo isafbris uned y cynhyrchion y maent yn eu gwerthu;

Costau posibl cyhoeddusrwydd a/neu ymgyrch addysg i sicrhau bod rhanddeiliaid yn ymwybodol o’r newidiadau yng Nghymru.

**<u>Monitro ac Adolygu</u>**

| | |
|---|---|
| **A oes angen i ni fonitro/adolygu'r cynnig** | **Oes** |
| **Os yn briodol: nodwch y dyddiad adolygu** | **I gael ei ystyried yn rhan o'r ymgynghoriad ar y Bil drafft a'i adolygu ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori (Rhagfyr 2015).** |

**Gweler y dudalen nesaf am Restr Gryno o erthyglau CCUHP**

